YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

Dydd Iau, 21 Gorffennaf 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G.H. John (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa Yr Aelod Cabinet, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 10.20 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022, gan ei fod yn gywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. CRONFA DATBLYGU EIDDO MASNACHOL TRAWSNEWIDIOL SIR GAERFYRDDIN

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeisydd. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r unigolion a'r busnes a nodir yn yr adroddiad o dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol – Datblygu Economaidd fod cynnig grant blaenorol a gymeradwywyd ar 17 Chwefror 2022 [gweler cofnod 6] wedi cael ei dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru ers hynny yn dilyn oedi o ran y cynllun arfaethedig.

Adolygodd yr Aelod Cabinet y newidiadau a wnaed yn y cwmni fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac ystyriodd gais am £750,000.00 o'r Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid - Sir Gaerfyrddin i United Petfood UK Ltd (a oedd yn masnachu gynt fel Cambrian Pet Foods Ltd).

PENDERFYNWYD rhoi grant o £750,000.00 i United Petfood UK Ltd o'r Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid - Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.

_____	_____
AELOD O'R CABINET	**DYDDIAD**